**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 3 Hydref 2024**

**Presennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John T Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies, Vicki Spencer-Francis

**Y Swyddogion Gweithredol:** Heather Anstey-Myers, Prif Weithredwr Dros Dro
Gareth Jones, Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol
Laura Pickup, Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau
(Ar gyfer eitemau 1 i 7f) John Richards, ,Arweinydd Darpariaeth i Gynhyrchwyr a Phroseswyr; Jason Craig, Arweinydd Datblygu'r Farchnad; Anne Dunn, Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol
Jo Horder o'r Ysgrifenyddiaeth

1. **Croeso a Sylwadau gan y Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd, yn enwedig Arweinwyr HCC.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am y prif ddigwyddiadau a'r cyfarfodydd yr oedd wedi bod ynddynt ers hynny Cyfarfod blaenorol y Pwyllgor:

11 Gorffennaf 2024 - Cyfarfod Llywodraethu Llywodraeth Cymru gyda Phwyllgor Gwaith HCC a chyfarfod Cadeiryddion Bwrdd Llywodraeth Cymru

22 a 23 Gorffennaf – Sioe Frenhinol Cymru

Awst a Medi 2024 – 7 cyfarfod Panel Adolygu Atafaelu Carbon SFS a 3 chyfarfod ffurfiol o Ford Gron Weinidogol SFS

3 Medi 2024 – Cyfarfod Cyllid Llywodraeth Cymru

5 Medi 2024 – Cyfarfod diweddaru Bwrdd HCC drwy Teams

11 Medi 2024 – Cyfarfod AIMS gyda'r Cadeirydd John Thorley a Tony Goodger

13 Medi 2024 – Cyfarfod LAA gyda Chris Dodds, Simon Morgan

18 Medi 2024 – ymunwyd â sesiwn rwydweithio yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Cig-weithio

25 Medi 2024 – Cyfarfod gyda Paul Davies, Cadeirydd Pwyllgor ETRA

26 Medi 2024 – Cadeirio Gweminar HCC gyda'r nos - tueddiadau Cig Oen Cymru, gofynion y farchnad a gwaith ymgyrchu

1 Hydref 2024, wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod ar-lein o Grŵp Cynghori Polisi Masnach Llywodraeth Cymru (TPAG)

Nodwyd bod y Cadeirydd wedi gofyn am bapur HCC ar gyfer TPAG ynghylch allforion i Ewrop.

**Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

Diolchodd y Cadeirydd i Swyddog Cynllunio Strategol y Diwydiant HCC, ac Arweinydd Datblygu Polisi HCC, am y gwaith o gefnogi is-grwpiau Bord Gron SFS. Nodwyd bod y Cadeirydd wedi derbyn adborth cadarnhaol ynghylch eu cyfraniad.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Maria Richards (Llywodraeth Cymru); Russ Thomas (HCC)

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Dywedodd Gareth Davies ei fod wedi ymddiswyddo o fod yn Brif Weithredwr Grŵp Wynnstay PLC.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi cael gwahoddiad i ddod yn ymddiriedolwr FareShare Cymru.

4. **Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd:**

*a. Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 4 Gorffennaf 2024 (HCC 1211)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

*b. Cyfarfod diweddaraf y Bwrdd drwy Teams a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Medi 2024 (HCC 1212)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

5. **Materion sy'n codi o Eitemau 4a a 4b uchod**

**Cofnodion dydd Iau 4 Gorffennaf 2024**

Diweddariad Amlrywogaethau Cymru – trafodaeth ar gyfleoedd data

Nodwyd y bydd hyn yn cael ei godi gan y Tîm Gweithredol.

Amlrywogaethau Cymru – diweddariad pellach ac arddangosiad o'r system

Mae hyn yn parhau.

Eitem 6a - canlyniadau ymgyrch eiriolaeth ac amddiffyn i'w rhannu gyda'r Bwrdd.

Nodwyd bod hyn wedi'i uwchlwytho i SharePoint.

Eitem 6a – rhestr acronymau i'w diweddaru

Mae hyn yn parhau.

Eitem 6c – Aelodau'r Bwrdd sydd ar gael ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru.

Roedd hyn wedi'i gwblhau.

<u>Eitem 6d – Diweddariad ymgyrch Cig Eidion Cymru</u>

Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i rannu gyda'r Bwrdd a diweddariad wedi'i roi yng nghyfarfod 5 Medi.

<u>Eitem 6e – Ffigurau lladd gwartheg</u>

Nodwyd bod hyn wedi'i adrodd yn y Cyfrif Rheoli / diweddariad Rhagolygon.

<u>Eitem 6g – Tuedd i lawr mewn ffigyrau lladd defaid; cyfarfod Llywodraeth Cymru i drafod materion yn ymwneud â'r diwydiant</u>

Mae'r ddau gam gweithredu'n parhau.

<u>Eitem 7b – Cylch Gorchwyl Archwilio a Risg</u>

Nodwyd bod dogfennau polisi rheoli wedi'u hymgorffori i gynnwys newidiadau yn ystod y flwyddyn.

<u>Eitem 7d - Grŵp Cynaliadwyedd ac Ymchwil: ystyried cynnwys yr agenda yn y dyfodol.</u>

Eitem ar yr agenda.

**<u>Cofnodion dydd Iau 5 Medi 2024</u>**

*<u>Eitem 3 – Strategaeth Cysylltiadau Cyhoeddus HCC i'w rhannu gyda'r Bwrdd</u>*

Nodwyd bod hon wedi cael ei rhannu.

*<u>Eitem 5 – Adborth o Sioe Frenhinol Cymru</u>*

Nodwyd y bydd adborth ar y gwersi a ddysgwyd yn cael ei gynnwys yng nghyfarfod cynllunio'r Bwrdd ym mis Tachwedd.

6. **<u>Ystyried adolygiad 6 mis o Berfformiad Cynllun Gweithredu HCC 20204-25 yn erbyn DPA</u>**

Cyflwynodd Arweinydd Darpariaeth i Gynhyrchwyr a Phroseswyr yr uchod.

Nodwyd bod yr holl fesurau DPA yn y cynllun ar y gweill. Bydd y diweddariad 6 mis yn cael ei adrodd i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr a chanlyniadau diwedd blwyddyn ym mis Mai 2025.

Trafodwyd cyflwyno'r mesurau. Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol cynnwys dolen glir yn ôl i'r canlyniadau strategol yn y Cynllun Gweithredu yn nogfennau DPA ar gyfer y Bwrdd yn y dyfodol.

7. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

*a. <u>Adroddiad darparu (HCC 1215)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cafwyd diweddariad gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am achosion o'r Tafod Glas yng Nghymru a'r DU. Mae HCC ar Weithgor Paratoadau ar gyfer

Clefydau Anifeiliaid Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Llywodraeth Cymru sy'n cydlynu'r holl gyfathrebu.

Nodwyd nad yw cyhoeddiadau ymchwil yn cael eu crybwyll yn y diweddariadau Ymchwil a Datblygu yn yr adroddiad. Cytunwyd y byddai'n fuddiol casglu a chyhoeddi adroddiadau ar y wefan i roi cyhoeddusrwydd i'r prosiectau ymchwil unigol a'r elfen Ymchwil a Datblygu o waith HCC .

*Cyflwyniad – Trosolwg o'r Weledigaeth a Chynllunio*

Cyflwynodd Arweinydd Darpariaeth i Gynhyrchwyr a Phroseswyr yr uchod.

Roedd y prif bwyntiau'n cynnwys;

- Y sefyllfa bresennol o ran Gweledigaeth 2025, swyddogaethau statudol HCC a chynlluniau strategol a gweithredol HCC;
- Sefyllfa bresennol yr ardoll, tueddiadau a goblygiadau ar gyfer y dyfodol;
- Nifer y defaid yng Nghymru; tueddiadau, patrymau a dylanwadau;
- Incwm a phroffidioldeb ffermydd;
- Tueddiadau mewnforio ac allforio defaid a chig eidion.

Amlinellwyd yr amserlen ar gyfer datblygu'r Weledigaeth newydd, gyda'r nod o'i chwblhau erbyn 2026 yn unol ag etholiadau Llywodraeth Cymru a phenodiadau Gweinidogol. Cadarnhaodd y Bwrdd eu bod yn cytuno â'r amserlenni arfaethedig.

Cytunodd y Bwrdd fod y cyflwyniad yn gwneud i rywun feddwl ac yn cyfleu'r realiti go iawn sy'n wynebu'r diwydiant.

*b.* *Bwletin y Farchnad (HCC 1216)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol rhoi adroddiad i'r Bwrdd ar fodelu senarios ynghylch effaith gallu Tsieina i fwyta protein a sut mae hynny'n effeithio ar gyflenwad.

**Gweithredu: Arweinydd Darpariaeth i Gynhyrchwyr a Phroseswyr**

*c.* *Derbyn diweddariad am bresenoldeb HCC yn SIAL ym Mharis 19-23 Hydref 2024*

Rhoddodd Arweinydd Datblygu'r Farchnad ddiweddariad ar lafar am yr uchod.

SIAL yw'r sioe fasnach fwyaf yn yr UE. Gyda 265K o bobl yn ei mynychu, mae'n denu masnach fyd-eang, gan gynnwys o Tsieina ac UDA. Mae'n sioe bwysig i HCC ei mynychu, gan fod 70% o allforion defaid Cymru'n mynd i'r UE ac mae gan y proseswyr allweddol brif swyddfeydd yn yr UE.

Bydd gan HCC stondin yn y brif neuadd. Bydd yr amserlen yn cynnwys derbyniadau, cyfarfodydd, samplau wedi'u coginio a chinio gyda'r nos. Bydd pedwar o brif broseswyr yn bresennol.

Gan nad oes unrhyw stondin rhyngwladol eleni, bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu stondin HCC, gan arddangos cynhyrchion bwyd eraill o Gymru.

Nodwyd y bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu yn y digwyddiad i helpu i asesu o'r gwerth a'r budd o fynd iddi. Bydd yr effaith o ran unrhyw ganlyniadau buddsoddi yn cymryd 6 i 12 mis i'w gwireddu.

Bydd adborth yn cael ei roi i'r Bwrdd ar ôl y digwyddiad.

*d.* *Derbyn diweddariad ar Gynhadledd Flynyddol HCC 14 Tachwedd 2024*

Rhoddodd yr Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol ddiweddariad ar lafar ynghylch yr uchod.

Mae'r gynhadledd yn cael ei chynnal yng Nghanolfan yr Aelodau ar faes y Sioe Frenhinol. Nod y digwyddiad yw rhoi gwybodaeth i'r diwydiant am yr amgylchedd gweithredu byd-eang a gartref a sut y gall cynhyrchwyr a phroseswyr lwyddo yn y marchnadoedd hyn.

Mae'r agenda yn cynnwys;

- Cyflwyniad gan y Cadeirydd;
- Anerchiad gan y Gweinidog Cabinet (presenoldeb i'w gadarnhau);
- Siaradwr GIRA – trosolwg o ffactorau sy'n ysgogi'r galw'n fyd-eang;
- Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau – Strategaeth HCC;
- Siaradwr AHDB - ffactorau sy'n ysgogi'r galw ar gyfer cwsmeriaid Halal;
- Swyddog Gweithredol Ymgyrchoedd HCC - Ymgyrch farchnata cig oen;
- Siaradwr Sky Adsmart – trosolwg o farchnata a hysbysebu;
- JS Sainsbury a dau ffermwr sy'n cyflenwi– manyleb y farchnad, gofynion manwerthwyr a chynhyrchu i ddiwallu anghenion.

Mae trafodaethau panel a sesiynau holi ac ateb wedi'u cynnwys ar yr agenda.

Roedd cynllunio'r broses gyfathrebu wedi dechrau, gan gynnwys trafodaethau gyda'r cyfryngau ynglŷn â sylw i'r digwyddiad. Cydnabuwyd y byddai angen i'r cyfathrebiadau gynnwys amrywiaeth eang o sianeli er mwyn sicrhau croestoriad o fynychwyr.

*e.* *Derbyn diweddariad am bresenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf 25-26 Tachwedd 2024*

Rhoddodd yr Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol ddiweddariad ar lafar am yr uchod.

Yr amcan fydd datblygu themâu'r Gynhadledd ac ystyried yr hyn y mae angen i'r diwydiant ganolbwyntio arno er mwyn llwyddo mewn marchnadoedd byd-eang.

Bydd stondin HCC yr un fath â'r llynedd, gan ymgysylltu â thalwyr ardoll a defnyddwyr.

Mae'r rhaglen wedi dechrau cael ei datblygu a bydd yn cynnwys Brecwast HCC, arddangosiadau coginio, rownd derfynol cystadleuaeth y Selsig Gorau, sesiynau addysgol a sesiynau proseswyr. Mae eitemau eraill hefyd yn cael eu hystyried, gan gynnwys cyfranogiad gan y Grŵp Cig-weithio.

*f.* *Digwyddiadau i ddod (HCC 1217)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Gofynnodd y Bwrdd am adborth am y Sioe Addysg Genedlaethol ar 4 Hydref.

**Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

g. *Ariannol – Cyfrifon Rheoli hyd at 31 Awst 2024 (HCC 1218)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a rhoddwyd crynodeb gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol.

Tynnwyd sylw at faterion allweddol y dylai'r Bwrdd wybod amdanynt:

- Roedd gwarged gweithredol o £139k, sef £42k cyn y gyllideb alldro;
- Mae tanwariant hyd yma yn erbyn gwariant (£132k), gan ddileu diffyg cyfnod 5 mewn incwm ardoll o £168k;
- Mae gwireddu incwm i gyfnod 5 yn dangos amrywiad negyddol i'r gyllideb wreiddiol o £168k, gyda niferoedd defaid i lawr £223K yn erbyn y proffil;
- Mae incwm ardoll ar y gyfradd isel a ragwelir (a gefnogir gan gronfeydd wrth gefn) £60k i lawr ar y proffil am y 5 mis cyntaf;
- Mae oedi o ran yr arian dyledus a gyfrifwyd ar gyfer chwarter 1 oherwydd bod Quality Meat Scotland (QMS) wedi gwneud newidiadau o ran cyfrifo stoc, gan olygu bod oedi cyn cael cadarnhad ynghylch niferoedd mamogiaid bridio. Cytunodd cyrff ardoll y dylid defnyddio ffigyrau dros dro ar gyfer chwarter 1, a'u cysoni ar gyfer paratoadau chwarter 2. Mae manylion Chwarter 1 (£358k) yn gynnydd sylweddol ar gostau sy'n ddyledus i HCC o'i gymharu â 2023 (cynnydd o £100k), ond mae angen bod yn ofalus gyda'r ffigyrau hyn;

Nodwyd bod rhai canlyniadau cadarnhaol wedi'u hadrodd. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd canlyniadau arolwg mis Mehefin yn parhau i ddangos tuedd i lawr yn nifer y da byw.

h. *Ariannol – Diwygio Mandad Banc (HCC 1219)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a rhoddwyd crynodeb gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol.

Diweddarwyd y mandad banc presennol ddiwethaf ar 23 Ebrill 2009 ac mae wedi bod yn ei le ers hynny. Roedd newidiadau diweddar yn nhîm gweithredol y cwmni yn golygu bod angen adolygu a diweddaru'r mandad fel y manylir yn yr adroddiad.

Cymeradwywyd y penderfyniad gan y Bwrdd.

i. *Ariannol – Cytundeb Fframwaith (HCC 1220)z*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a rhoddwyd crynodeb gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol.

Tynnwyd sylw at y pwyntiau allweddol hyn;

- Roedd oedi cyn newid Cytundeb Fframwaith 2017 oherwydd cynnig i gynnwys cyfyngiadau 'rheoli arian parod', gan osod goddefiant o 2% ar

gronfeydd arian parod ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd hyn yn gohirio cyhoeddi Llythyr Cytundeb gan Lywodraeth Cymru;

- Cytunwyd â swyddogion Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynnig yn amlinellu'r rhesymeg dros gynnal ac adeiladu cronfeydd wrth gefn o arian parod HCC;
- Roedd ymateb wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru yn dweud bod eu Tîm Llywodraethu a Chyllid wedi ystyried y cynnig ond daeth i'r casgliad nad oedd hyblygrwydd o ran cario 2% ymlaen;
- Bydd gorfodi HCC i gario 2% ymlaen yn golygu y bydd gwariant wedi'i ymrwymo sy'n uwch na lefelau hylifedd bron yn syth, a hynny'n rheolaidd bob mis;
- Er mwyn caniatáu i HCC barhau i fasnachu, byddai angen adfer y system dynnu i lawr gan Lywodraeth Cymru neu byddai angen cyfleuster gorddrafft masnachol sylweddol. Nid yw HCC yn derbyn cymorth grant;
- Nodwyd y gofynion llywodraethu a'r gwahaniaethau ariannu rhwng HCC a chyrff hyd braich (ALB) eraill yn y papur.

Tynnodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol sylw at bwyntiau allweddol o gyflwyniad y bu ynddo gan Lisa Thomas, Tîm Cyllid Llywodraeth Cymru, i Brif Weithredwr Grŵp ALB ym mis Mehefin ac i'r Grŵp Arweinwyr Cyllid ym mis Gorffennaf, ar "Pam fod yn rhaid rheoli lefelau cronfeydd wrth gefn ac arian parod yn y sector cyhoeddus". Dau bwynt allweddol o fewn y cyflwyniad oedd mai'r "peth olaf mae LlC eisiau yw i unrhyw gorff hyd braich redeg allan o arian parod", a neges glir nad oes "un ateb yn gweddu i bawb", gyda lefelau goddefiant arian parod "trwy drafodaeth" yn cael eu gosod yn unol ag anghenion sefydliadol. Mae'n ymddangos bod y negeseuon hyn yn gwrth-ddweud penderfyniad Llywodraeth Cymru.

Roedd siom a phryderon HCC ynglŷn â'r penderfyniad wedi cael eu cyfleu i swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd cyfarfod wedi'i drefnu gyda Thîm Cyllid Llywodraeth Cymru ar 17 Hydref i drafod y mater ymhellach.

Yn y cyfamser bydd y mater hefyd yn cael ei drafod gydag archwilwyr mewnol ac allanol i ofyn am eu barn.

Nodwyd y papur a thrafodwyd y mater gan y Bwrdd. Yn sylfaenol, caiff HCC ei ariannu drwy daliadau ardoll a rhaid iddo ddefnyddio cyllid a godir gan yr ardoll yn unig mewn cysylltiad â pherfformiad y Cytundeb Dirprwyo o dan Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010.

Teimlwyd na allai'r Bwrdd gefnogi cytundeb sy'n mynd yn groes i rwymedigaethau HCC i dalwyr ardoll ac y byddai'n golygu bod risg sylweddol i'r sefydliad. Amddiffynnodd y Bwrdd yn gryf y safbwynt a gyflwynwyd yn y cynnig.

Bydd y Bwrdd yn cael ei ddiweddaru ar y sefyllfa yn dilyn y cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru.

## 8. <u>Adolygu a chymeradwyo dogfennau allweddol</u>

*a. <u>Polisi a Gweithdrefn Recriwtio a Dethol (HCC 1221)</u>*

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol yr uchod.

Roedd hwn yn bolisi HCC newydd a ddatblygwyd i ddarparu arweiniad clir i sicrhau bod proses recriwtio deg a chyson ac amlinellu gofynion wrth geisio awdurdodiad ar gyfer swydd wag.

Cytunwyd y dylid adolygu'r polisi ar ôl y 12 mis cyntaf.

Cymeradwywyd y polisi gan y Bwrdd.

b. *Polisi Aflonyddu Rhywiol (HCC 1222)*

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr uchod.

Nod y ddogfen oedd sicrhau bod gan HCC bolisi aflonyddu rhywiol clir a chyfredol, gan ystyried newidiadau sefydliadol a newidiadau deddfwriaethol a ddaeth i rym ym mis Hydref 2024.

Trafodwyd y polisi drafft a nodwyd y sylwadau canlynol;

- Teimlwyd bod y polisi yn rhy fanwl a chaeth mewn mannau; gellid gwneud y broses a'r camau i'w cymryd yn gliriach;
- Nid oedd y cyfrifoldebau'n glir mewn rhai meysydd, gan gynnwys cyfrifoldebau'r Bwrdd;
- Nid oedd cysylltiadau â pholisïau eraill, e.e. polisi aflonyddu, yn glir.

Bydd y drafft yn cael ei adolygu yn unol â'r sylwadau a dderbyniwyd a'u cyflwyno yn ôl i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. Gwneir hyn drwy e-bost os bydd angen cymeradwyaeth yn ystod mis Hydref.

**Gweithredu: Prif Weithredwr Dros Dro**

9. **Pwyllgorau HCC**

Pwyllgor Archwilio a Risg

a. *Derbyn adroddiad ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Iau 18 Gorffennaf 2024*

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad ar yr uchod. Dyma'r pwyntiau allweddol y tynnwyd sylw atynt;

- Mae'r gwaith rheoli risg yn parhau. Bydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Hydref 2024 ac i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2024;

- Yn sgil gwerthuso'r Tendrau a gyflwynwyd ar gyfer Archwilio Mewnol, yr argymhelliad oedd penodi Azets yn archwilwyr mewnol ar gyfer 2024 - 2027. Rhoddwyd sicrwydd gan Azets y gallent ddarparu'r gwasanaethau gofynnol yn dilyn ailstrwythuro eu cwmni. Bydd HCC yn gweithio gyda thîm newydd yn yr Alban. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol ei fod yn hyderus bod gan Azets y sgiliau arbenigol a'r arbenigedd sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaeth;

- Roedd pedwar maes archwilio wedi'u nodi ar gyfer 2024-25, yn unol â'r risgiau

strategol a nodwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol;

- Adolygu systemau a gweithdrefnau cyfredol
- Rheolaeth gyllidebol
- Parhad busnes a rheoli digwyddiadau
- Cydymffurfio o ran Iechyd a Diogelwch;

- Cymeradwyodd y Pwyllgor dri pholisi; Polisi gwrth-lwgrwobrwyo; Polisi a Gweithdrefn Atal Twyll; Rhyddid Gwybodaeth;

- Mae'r gwaith o archwilio’r cyfrifon wedi dechrau ac mae'n mynd rhagddo fel y cynlluniwyd. Mae Archwilio Cymru yn hyderus y byddant yn cwblhau’r gwaith o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

<u>Grŵp Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy</u>

b. <u>*Mabwysiadu cofnodion y Grŵp Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy a gynhaliwyd ddydd Iau 16 Mai 2024 (HCC 1223)*</u>

Mabwysiadwyd cofnodion 16 Mai 2024 gan y Bwrdd.

c. <u>*Derbyn adroddiad ar lafar o'r Grŵp Arloesi ac Ymchwil Cynaliadwy a gynhaliwyd ddydd Iau 19 Medi 2024*</u>

Rhoddodd Cadeirydd y Grŵp ddiweddariad ar lafar ar y cyfarfod. Dyma’r prif bwyntiau;

- Darparodd Swyddog Gweithredol Ymchwil a Datblygu a Chynaliadwyedd HCC), ddiweddariad am Ymchwil a Datblygu HCC;
- Rhoddodd yr Aelodau ddiweddariad am weithgareddau perthnasol ac arloesedd yn eu maes gwaith a’u meysydd;
- Rhoddodd y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau ddiweddariad ynghylch cyfathrebu, gan dynnu sylw at rôl Ymchwil a Datblygu ac arloesedd fel sail i’r strategaeth farchnata;
- Cyflwynodd James Cooke (Llywodraeth Cymru) yr Adnodd Asesu Defnydd Tir Amgen. Roedd hyn yn cynnwys amcanestyniadau clir ynghylch defnydd tir yn y dyfodol a chynnyrch mewn ardaloedd o Gymru sy’n fwyaf tueddol o ddioddef o sychder;
- Roedd y papur safbwynt ar dda byw yng Nghymru wedi ei roi i’r neilltu am y tro a phenderfynwyd canolbwyntio mwy ar rannu tystiolaeth a negeseuon am fanteision cig coch.

Roedd y cyfarfod wedi bod yn fuddiol ac roedd y lleoliad, ArloesiAber, yn hwylus. Bydd y Grŵp yn ystyried cyfleoedd i gynnal y cyfarfodydd mewn gwahanol leoliadau ac ardaloedd.

Trafodwyd rôl y Grŵp, gan gynnwys cyfleoedd i gydweithio a chwilio am gyfleoedd ariannu ar gyfer ymchwil a fydd o fudd i'r diwydiant yn y dyfodol, er enghraifft, adnoddau rheoli i liniaru effaith sychder.

10. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

a. <u>*Derbyn a diweddaru Gwaith Partneriaeth y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)*</u>

Adroddodd y Cadeirydd fod gwaith y Ford Gron Weinidogol yn parhau.

Cefnogwyd y Cadeirydd ar y Panel Adolygu Atafaelu Carbon gan Arweinydd Datblygu Polisi HCC. Mae'r panel hwn bellach yn dod i ben.

Roedd Swyddog Cynllunio Strategol y Diwydiant HCC, wedi bod yn bresennol yng Ngrŵp Swyddogion SFS.

Roedd cydweithio a chydweithrediad da rhwng yr holl randdeiliaid dan sylw. Roedd cynnydd wedi'i wneud, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd.

*b.* *Derbyn a diweddaru proses recriwtio Prif Weithredwr*

Nodwyd bod y pecyn ymgeiswyr bron ar ffurf drafft terfynol, gan anelu at ddechrau'r broses recriwtio ym mis Hydref.

11. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Diweddariad i'r Bwrdd drwy Teams - dydd Mercher 6 Tachwedd 2024 am 9.30am

Cyfarfod o Fwrdd HCC – dydd Iau 5 Rhagfyr 2024 am 10am

**Bwrdd HCC ar gau Sesiwn**

Dilynodd cyfarfod ar wahân a chyfrinachol o'r Bwrdd.

**Llofnodwyd.......................................**
**Cadeirydd HCC**